Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Llanfair Talhaiarn
# Llanfair Talhaiarn
# Abergele
# Conwy
# LL22 8SD

## Dyddiad yr arolygiad:  Ionawr 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© **Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 17/03/2017**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Talhaiarn ym mhentref Llanfair Talhaiarn ger Abergele yng Nghonwy. Mae’r ysgol sy’n naturiol ddwyieithog yn gwasanaethu’r pentref a’r ardal wledig o gwmpas.

Mae’r ysgol yn ysgol cyfrwng Saesneg yn bennaf, a gwneir defnydd helaeth o’r iaith Gymraeg. Defnyddir y ddwy iaith i gyfathrebu gyda disgyblion ac yng ngweinyddiaeth yr ysgol.

Mae 44 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 6 o oed meithrin. Tri dosbarth oed cymysg sydd yn yr ysgol. Mae tua 20% o’r disgyblion yn dod o gartrefi lle siaredir Cymraeg. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndir ethnig lleiafrifol.

Tua 19% o’r disgyblion sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae 28% o’r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol. Nid oes disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Cychwynnodd y pennaeth yn ei swydd ym mis Medi 2016. Cafodd yr ysgol ei harolygiad diwethaf yn Chwefror 2009.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Talhaiarn yn 2016 - 2017 yw £4,782. Yr uchafswm ar gyfer disgybl yn ysgolion cynradd yng Nghonwy yw £14,063 a’r lleiafswm yw £3,225. Mae Ysgol Gynradd Talhaiarn yn safle 16 o’r 55 ysgol gynradd yng Nghonwy o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu ac yn cyflawni'n dda
- rhan fwyaf y disgyblion yn cyrraedd lefel uchel o ddwyieithrwydd ac erbyn Blwyddyn 6 yn newid yn rhwydd o un iaith i'r llall wrth drafod eu gwaith
- rhan fwyaf y disgyblion yn cymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd yn effeithiol ar draws y cwricwlwm
- ymddygiad disgyblion yn gryfder yn yr ysgol, a'r rhan fwyaf yn dangos lefelau da o gymhelliant, diddordeb a balchder yn eu gwaith
- yr athrawon yn darparu ystod gyfoethog o brofiadau dysgu diddorol sy'n ysgogi diddordeb rhan fwyaf y disgyblion yn effeithiol
- perthynas waith dda yn bodoli rhwng staff a disgyblion ym mhob dosbarth sy'n creu ethos cynhwysol a chartrefol lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon ar gyfer gwella yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir yn seiliedig ar sicrhau safonau uchel a lles da disgyblion
- y pennaeth wedi cyfleu'r weledigaeth yn llwyddiannus i'r staff, rhieni a llywodraethwyr
- cyfrifoldebau wedi eu diffinio'n glir ac ethos o gydweithio fel tîm yn bodoli ymysg y staff
- y corff llywodraethol yn wybodus, yn gefnogol ac yn herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn effeithiol
- gweithdrefnau cadarn ar gyfer hunanarfarnu sy'n sicrhau dealltwriaeth gywir o'i chryfderau a'r meysydd sydd angen iddi eu gwella
- y cynllun datblygu ysgol yn cynnwys strategaethau manwl ar gyfer mynd i'r afael â'r hyn sydd angen ei gyflawni mewn perthynas â chodi safonau
- partneriaethau llwyddiannus yn bodoli gyda rhieni, y gymuned leol â sefydliadau eraill

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod disgyblion cyfnod allweddol 2 yn cynhyrchu darnau estynedig o ysgrifennu ar draws y cwricwlwm yn fwy aml

A2 Cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion ar draws y cwricwlwm

A3 Sicrhau bod arferion gorau asesu ar gyfer dysgu yn cael eu gweithredu'n gyson

A4 Sicrhau cyfleoedd priodol i aelodau'r staff ymgyfarwyddo â, a datblygu ymhellach, eu rolau arweinyddol

A5 Creu cyfleoedd i athrawon gyfnewid arfer dda tu hwnt i'r ysgol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cychwyn yn yr ysgol â medrau llythrennedd a rhifedd tebyg i'r rheini a ddisgwylir ar gyfer disgyblion o'u hoed. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda.

Mae medrau llafar Saesneg rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n effeithiol. Maent yn gwrando'n astud, ac erbyn diwedd y cyfnod, maent yn sgwrsio'n hyderus am eu gwaith a'u profiadau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn cyfathrebu'n glir ac yn hyderus mewn trafodaethau dosbarth. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf yn trafod agweddau o'u gwaith yn ddeallus, gan ddefnyddio geirfa briodol, er enghraifft wrth gymharu nodweddion dynol a ffisegol ardaloedd yng Nghymru a'r Eidal.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau darllen Saesneg. Mae gan ddisgyblion ym mlynyddoedd cynnar y cyfnod ddealltwriaeth dda o'r berthynas rhwng llythrennau a seiniau ac maent yn eu defnyddio'n dda i ddarllen geiriau anghyfarwydd. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn rhugl ac yn trafod cynnwys testun yn ystyrlon. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn darllen yn gywir a hyderus ac mae eu dealltwriaeth o'r hyn maent yn ei ddarllen yn gadarn. Maent yn cymhwyso eu medrau darllen yn dda i gefnogi eu gwaith mewn ystod o bynciau. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf yn mynegi barn am lyfrau ac yn disgrifio'r prif gymeriadau a rhediad y digwyddiadau o fewn y straeon yn ystyrlon. Maent yn defnyddio gwahanol strategaethau darllen yn fedrus i ddod o hyd i wybodaeth i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth astudio'r digwyddiadau arweiniodd at yr Ail Ryfel Byd.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau ysgrifennu Saesneg. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn ysgrifennu'n effeithiol at wahanol ddibenion ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ysgrifennu am ymweliad i feddygfa leol. Mae'r disgyblion mwy abl yn defnyddio ystod gyfoethog o eiriau ac ymadroddion er mwyn dwyn perswâd, er enghraifft wrth geisio denu ymwelwyr i Frasil. Mae rhan fwyaf y disgyblion erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 yn amrywio brawddegau ac yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa berthnasol yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dewis geirfa ddiddorol ac yn sillafu, atalnodi a pharagraffu'n gywir. Maent yn cymhwyso amryw ffynhonnell i gasglu gwybodaeth, er enghraifft wrth greu dadl o blaid neu yn erbyn cadw anifeiliaid mewn sw. Mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu darnau estynedig o ansawdd da, er enghraifft wrth ysgrifennu erthygl papur newydd ddychmygol yn dilyn lladrad. Fodd bynnag, nid ydynt yn creu darnau estynedig sy'n briodol i'w gallu ar draws y cwricwlwm yn ddigon aml. Mae cyflwyniad gwaith rhan fwyaf y disgyblion yn daclus.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn dangos gafael sicr o ffeithiau rhif, sy’n briodol i’w hoedran, ac yn defnyddio’r wybodaeth yn effeithiol i ddatrys problemau rhif yn eu gweithgareddau. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer ohonynt yn defnyddio ystod o fedrau mesur yn gywir, er enghraifft wrth fesur gwrthrychau o fewn y dosbarth. Mae’r rhan fwyaf yn defnyddio arian yn hyderus wrth dalu am eitemau mewn siop. Maent yn dadansoddi a chyflwyno gwybodaeth yn effeithiol, er enghraifft wrth ddefnyddio cyfeirnod grid i drefnu taith yr Hugan Fach Goch drwy’r goedwig i dŷ nain. Mae gan ran fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 afael sicr ar ystod briodol o fedrau rhif. Erbyn Blwyddyn 6, maent yn hyderus wrth ddefnyddio ystod eang o ddulliau i gyfrifo yn y pen ac ar bapur. Maent yn cymhwyso’u medrau rhifedd yn effeithiol wrth ddatrys problemau, er enghraifft wrth bwyso bwyd dogni er mwyn gweld yn union faint oedd plentyn yn ei gael yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn briodol mewn meysydd dysgu, ac ar draws y cwricwlwm. Maent yn defnyddio pecynnau TGCh i wneud cyflwyniadau da o’u gwaith, er enghraifft wrth i ddisgyblion Blwyddyn 2 gyfuno llun a thestun wrth ailadrodd stori am eliffant anarferol. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio rhagleni prosesu geiriau yn hyderus, er enghraifft wrth gyflwyno eu gwaith ar y Fasnach Deg. Mae ganddynt wybodaeth gadarn am e-ddiogelwch ac maent yn defnyddio’r rhyngrwyd yn ddiogel ac yn effeithiol i chwilio am wybodaeth, er enghraifft wrth greu ffeil o ffeithiau am wahanol anifeiliaid. Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn ennill dealltwriaeth gymwys o sut i fwydo bas data i greu graffiau a siartiau, er enghraifft wrth gymharu tymheredd dros gyfnod. Fodd bynnag, ychydig iawn sy’n datblygu dealltwriaeth dda o sut i drin data neu greu taenlenni i fodelu sefyllfaoedd byd go iawn.

Mae iaith lafar Gymraeg disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn datblygu’n dda iawn gyda’r dysgwyr sydd o gartrefi di-gymraeg yn dysgu’r iaith yn gyflym. Erbyn Blwyddyn 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymateb yn dda yn y dosbarth ac yn frwd i gyfrannu atebion yn y Gymraeg. Mae llawer ohonynt yn darllen ystod briodol o lyfrau Cymraeg ac yn ysgrifennu ystod gynyddol o frawddegau syml yn annibynnol, gyda’r mwyafrif o eiriau cyffredin wedi eu sillafu’n gywir. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion wedi gwneud cynnydd arwyddocaol yn eu hyfedredd i ddefnyddio'r iaith mewn gwahanol gyd-destunau cwricwlaidd. Maent yn cyfathrebu’n glir ac yn hyderus yn Gymraeg gan ymuno â thrafodaethau dosbarth yn frwdfrydig. Mae llawer ohonynt yn hyderus wrth gynnal sgwrs estynedig mewn amrywiol sefyllfaoedd. Erbyn Blwyddyn 6, mae’r rhan fwyaf yn cyrraedd safon dda o ddwyieithrwydd ac yn newid yn rhwydd o un iaith i’r llall wrth drafod eu gwaith. Mae llawer yn darllen yn gywir ac ystyrlon ac yn ysgrifennu i safon dda gan ddefnyddio patrymau iaith gywir ac ansoddeiriau diddorol, er enghraifft wrth greu portread o’u ffrindiau yn yr ysgol. Mae’r goreuon yn ysgrifennu i safon uchel ar draws ystod o bynciau, er enghraifft wrth gofnodi ymchwiliad mewn gwyddoniaeth.

Dros y blynyddoedd diwethaf, roedd nifer cymharol fach o ddisgyblion (deg neu lai) yn y grwpiau blwyddyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. Gall hyn effeithio’n sylweddol ar berfformiad meincnodi'r ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg ac o gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, dros gyfnod o bedair blynedd, mae perfformiad disgyblion mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol ar y deilliant disgwyliedig a'r deilliant uwch wedi amrywio ac nid oes patrwm cyffredinol.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, dros gyfnod o bedair blynedd, mae perfformiad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig yn y Saesneg, Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi amrywio o gymharu ag ysgolion tebyg ac nid oes patrwm cyffredinol. Ar y lefel uwch, mae tueddiad i fyny dros yr un cyfnod. Mae hyn yn gosod yr ysgol gan amlaf yn y 25% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg yn y ddwy flynedd diwethaf.

Am fod nifer y disgyblion mor fach, nid yw cymariaethau perfformiad bechgyn a merched na disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn ddibynadwy.

**Lles: Da**

Mae'r disgyblion yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno. Maent yn hyderus y byddai staff yn delio'n effeithiol ag unrhyw fygythiadau i'w hiechyd a'u lles. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd bwyta'n iach, yfed dŵr yn rheolaidd, a'r angen i ymarfer y corff.

Un o gryfderau'r ysgol yw ymddygiad da bron pob disgybl. Maent yn gwrtais a chroesawgar tuag at ymwelwyr ac yn ofalus iawn o'i gilydd yn y gwersi ac yn ystod amser chwarae. Mae medrau cymdeithasol a medrau bywyd bron bob disgybl yn dda. Mae rhan fwyaf yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at eu gwaith. Maent yn gweithio'n ddiwyd am gyfnodau estynedig, gan arddangos dyfalbarhad. Fodd bynnag, dechrau datblygu mae medrau disgyblion i wella eu dysgu eu hunain.

Mae aelodau'r cyngor ysgol yn grŵp brwdfrydig o ddisgyblion. Maent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn weithgar yn yr ysgol ac mae llais y disgybl yn cael lle amlwg drwy fentrau amrywiol, er enghraifft wrth gynllunio gwelliannau i'r ardal allanol. Mae'r aelodau yn trefnu gweithgareddau codi arian ar gyfer nifer o elusennau a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar ymwybyddiaeth y disgyblion o anghenion eraill.

Mae presenoldeb rhan fwyaf y disgyblion yn dda ac maent yn cyrraedd yn brydlon ar gychwyn y dydd. Gan amlaf dros y pedair blynedd diwethaf, mae cyfartaledd presenoldeb yr ysgol wedi bod yn y 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod gyfoethog o brofiadau dysgu diddorol sy'n diwallu anghenion rhan fwyaf y disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r athrawon yn cynllunio'r cwricwlwm yn fwriadus er mwyn sicrhau bod profiadau dysgu yn bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol. Mae gan yr ysgol amrediad buddiol o weithgareddau allgyrsiol ac mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan ynddynt.

Mae’r ysgol yn sicrhau bod y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn cael ei gynllunio a’i blethu’n effeithiol i gynlluniau gwaith. O ganlyniad, mae’r athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr o weithgareddau sy’n datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm yn y ddau gyfnod allweddol yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw’r cynllunio ar gyfer datblygu medrau TGCh y disgyblion yn ddigon trylwyr. O ganlyniad, nid yw’r ddarpariaeth yn rhoi cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu eu medrau trin data a modelu mewn TGCh ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu’r iaith Gymraeg a’r dimensiwn Cymreig mewn amrywiol gyd-destunau yn gyfoethog ac yn ganolog i holl waith a bywyd yr ysgol. Mae meithrin dwyieithrwydd ymysg yr holl ddisgyblion yn gryfder yn yr ysgol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau Cymraeg y disgyblion. Mae’r ysgol yn darparu cyfleoedd amrywiol i ddisgyblion ddysgu am hanes a diwylliant yr ardal a Chymru. Enghraifft dda o hyn yw gwaith disgyblion cyfnod allweddol 2 ynglŷn â chwedlau Cymru.

Mae addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn cael ei chyflwyno drwy’r cwricwlwm a thrwy weithgarwch y cyngor ysgol a’r cyngor eco yn dda. Mae’r ysgol yn cynnig ystod o brofiadau gwerthfawr sy’n sicrhau bod gan ddisgyblion ymwybyddiaeth werthfawr o faterion cynaliadwyedd trwy eu gwaith yn yr ardd. Mae cyfleoedd gwerthfawr i godi ymwybyddiaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang drwy eu gwaith dosbarth ar y Fasnach Deg a chefnogi nifer o elusennau gwahanol, er enghraifft drwy godi arian i warchod anifeiliaid prin yn Borneo ac i brynu ieir i drigolion pentref yn Affrica.

**Addysgu: Da**

Mae’r addysgu yn gyson effeithiol ar draws yr ysgol. Mae gan yr holl athrawon ddisgwyliadau uchel ac maent yn llwyddo i feithrin a chynnal perthynas waith dda rhyngddynt a’r disgyblion, sy’n creu awyrgylch dysgu cynhaliol yn y gwersi. Maent yn arwain sesiynau dysgu effeithiol a diddorol sy’n cymell disgyblion i ddysgu. Mae ganddynt wybodaeth bynciol gadarn ac maent yn cysylltu eu gwersi’n glir â dysgu blaenorol. Maent yn defnyddio ystod o ddulliau’n fedrus i sicrhau eu bod yn cyflwyno dilyniant o weithgareddau dysgu sy’n ennyn brwdfrydedd ac yn cynnal diddordeb rhan fwyaf y disgyblion. Maent yn holi cwestiynau treiddgar ac yn cynnig cyfleoedd pwrpasol i’r disgyblion weithio mewn parau ac mewn grwpiau bach. Mae’r holl staff yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi iaith Gymraeg disgyblion, sy’n cyfrannu’n llwyddiannus at eu medrau llafaredd.

Mae’r athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn ymwybodol o fwriadau dysgu ac maent yn trafod ansawdd eu gwaith mewn modd sensitif ac adeiladol yn ystod y gwersi. Mae gwaith disgyblion yn cael ei farcio’n rheolaidd. Lle mae’r marcio yn fwyaf effeithiol, er enghraifft yn y llyfrau iaith, mae sylwadau’r athrawon yn cynnig arweiniad clir iddynt ar sut i wella’r gwaith. Er hyn, nid yw arferion gorau asesu ar gyfer dysgu yn cael eu gweithredu’n ddigon cyson. Mae gweithdrefnau diweddar yn eu lle i ddarparu cyfleoedd i’r disgyblion arfarnu eu gwaith eu hunain, a chyfoedion, ond nid ydynt eto wedi gwreiddio’n llawn.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau clir ar gyfer cofnodi cynnydd disgyblion. Mae'r athrawon yn defnyddio canlyniadau asesiadau yn effeithiol i drefnu cymorth ychwanegol i ddisgyblion penodol, sy'n cyfrannu at wella deilliannau. Mae'r rhieni yn derbyn gwybodaeth dda am gynnydd eu plant ac mae adroddiadau blynyddol yn bodloni'r gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a gofalgar lle mae disgyblion yn cael eu meithrin i fod yn ymwybodol o bwysigrwydd gofalu am ei gilydd. Maent yn dangos parch at eraill, yn enwedig y rhai sy'n llai ffodus na nhw eu hunain. Mae trefniadau priodol yn bodoli ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd i ddisgyblion gadw'n heini, trwy'r cwricwlwm a gweithgareddau allgyrsiol. Mae'r cyfnodau addoli ar y cyd yn cyfrannu'n effeithiol at hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Caiff datblygiad cymdeithasol a diwylliannol disgyblion ei ddatblygu ymhellach drwy amrywiol weithgareddau yn y gymuned. Enghraifft dda o hyn yw'r cydweithio agos gyda'r eglwys leol i ddatblygu llwybr natur.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf a chefnogol gyda nifer o wasanaethau arbenigol ac asiantaethau allanol, fel therapyddion iaith, seicolegwyr addysg a'r heddlu lleol. Mae staff yn gweithio'n llwyddiannus â'r asiantaethau hyn er mwyn sicrhau cymorth ac arweiniad i ddisgyblion a rhieni a chefnogi lles disgyblion yn dda.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae trefniadau trylwyr ar gyfer adnabod a chefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, gyda'r cydlynydd yn rhoi arweiniad gwerthfawr i'r athrawon. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn cael cynhaliaeth a mynediad llawn i'r cwricwlwm. Mae targedau clir a chyraeddadwy yn cael eu nodi yn y cynlluniau addysg unigol. Mae'r rhieni a'r disgyblion yn cael eu cynnwys yn y broses o'u llunio a'u hadolygu. O ganlyniad, mae rhan fwyaf o'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd cadarn yn erbyn eu targedau.

Mae'r trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a chroesawgar lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel. Mae'n gymuned gyfeillgar gyda phwyslais amlwg ar ofal a pharch. Mae polisïau'r ysgol yn hybu cydraddoldeb a mynediad cyfartal i'r ddarpariaeth yn effeithiol. Mae'r ysgol yn annog cydweithrediad, gofal a goddefgarwch rhwng oedolion a phlant a rhwng plant a'i gilydd yn llwyddiannus ac yn parchu cyfraniad pob unigolyn a'i safbwyntiau. Mae arddangosfeydd yn yr ystafelloedd dosbarth ac ar draws yr ysgol yn adlewyrchu a dathlu gwaith disgyblion yn effeithiol.

Mae'r ysgol ar safle braf ac yn cynnig amgylchedd ddysgu addas a ddiogel ar gyfer disgyblion. Mae'r safle yn cynnig digon o le ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n lân a thaclus. Mae athrawon yn defnyddio adnoddau a thir yr ysgol yn effeithiol i annog disgyblion i gadw'n iach a gwerthfawrogi'r amgylchedd o'u cwmpas. Er enghraifft,

mae'r cwrs antur a'r cae chwarae newydd yn hybu ffitrwydd disgyblion yn effeithiol. Mae'r ddarpariaeth tu allan yn sicrhau cyfleoedd buddiol ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen. Mae'r defnydd o'r ardd lysiau a'r ardal natur yn cefnogi gwaith yr ysgol ar barchu'r amgylchfyd yn llwyddiannus.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn cynnig gweledigaeth glir yn seiliedig ar sicrhau safonau uchel a lles da disgyblion. Mae'n cynnig arweiniad cadarn ac yn cydweithio'n effeithiol â disgyblion, staff, llywodraethwyr a rhieni i greu ysgol lwyddiannus. Mae'r ysgol yn gymuned drefnus a gofalgar ac mae ganddi strwythurau a pholisïau clir sy'n cyfrannu'n llwyddiannus tuag at wireddu'r amcanion. Yn ddiweddar, mae'r arweinwyr wedi ailstrwythuro staff yr ysgol gydag aelodau newydd o staff yn cychwyn ymgyfarwyddo â'u rolau arweinyddol yn briodol. Mae hyn eisoes wedi arwain at sicrhau gwell cysondeb yn y drefn gynllunio. Fodd bynnag, mae'n rhy fuan i fesur yn llawn effaith hyn ar safonau gwaith disgyblion a gweithdrefnau'r ysgol.

Mae cyfrifoldebau staff wedi eu diffinio'n glir ac mae ethos o gydweithio fel tîm yn bodoli. Mae ganddynt ymrwymiad cryf i ddatblygu a hyrwyddo gwelliannau trwy gydweithio cadarnhaol i gyflawni amcanion mewn perthynas â chynlluniau strategol yr ysgol. Mae trefniadau rheoli perfformiad yn effeithiol, sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau'r ysgol ac yn adnabod yn glir agweddau sydd angen eu datblygu drwy hyfforddiant proffesiynol staff. O ganlyniad, mae staff yn ymwybodol o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn sicrhau gwelliant, er enghraifft wrth ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer TGCh.

Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol, er enghraifft wrth feithrin medrau dwyieithrwydd ymysg yr holl ddisgyblion. O ganlyniad, mae defnydd disgyblion o'r Gymraeg yn y gwersi ac ar y buarth yn gryfder yn yr ysgol.

Mae'r corff llywodraethol yn cefnogi'r ysgol yn dda ac mae gan yr aelodau ddealltwriaeth gadarn o safonau a chyflawniadau'r disgyblion ac am flaenoriaethau gwelliant. Maent yn barod i werthuso effeithiolrwydd darpariaeth yr ysgol wrth ymweld i fonitro'r addysgu a chynnydd y disgyblion, er enghraifft wrth werthuso effeithlonrwydd y defnydd o gyllid penodol i wella safonau llythrennedd grwpiau o ddisgyblion. O ganlyniad, maent yn herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn effeithiol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn ar gyfer hunanarfarnu sy'n sicrhau bod gan arweinwyr a'r staff ddealltwriaeth gywir o'r cryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae arweinwyr yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol yn fedrus. Mae'r rhain yn cynnwys dadansoddiad manwl o ddata, arsylwi gwersi a chraffu ar lyfrau. Rhoddir ystyriaeth fanwl i farn staff, disgyblion, rhieni, llywodraethwyr ac adroddiadau ymgynghorwyr fel rhan o'r broses hunanarfarnu. Mae'r holl staff a'r llywodraethwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau ac yn ystyried yn

ddeallus effaith blaenoriaethau gwelliant ar y ddarpariaeth ar safonau. Mae hyn wedi arwain at sicrhau gwell cysondeb yn ansawdd yr addysgu a chofnodi cynnydd disgyblion.

Ers ei benodiad, mae’r pennaeth wedi arfarnu nifer o agweddau a, gyda chefnogaeth y staff a’r llywodraethwyr, wedi cadarnhau beth yw cryfderau’r ysgol a’r materion sydd angen sylw i’r dyfodol, ac wedi amlygu blaenoriaethau ychwanegol, er enghraifft yr angen i ddatblygu’r arfer asesu a’r ddarpariaeth TGCh.

Mae cyswllt clir rhwng canfyddiadau prosesau monitro a blaenoriaethau’r cynllun datblygu ysgol. Mae’r cynllun yn ddogfen weithredol ac yn cynnwys strategaethau manwl ar gyfer mynd i’r afael â’r hyn sydd angen ei gyflawni mewn perthynas â chodi safonau. Mae’n amlygu cyfrifoldebau staff, gofynion cyllidol a dulliau ar gyfer monitro cynnydd. Mae arweinwyr yn gwerthuso cynnydd yn erbyn blaenoriaethau yn gyson. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar wella’r ddarpariaeth. Er enghraifft, mae gwaith ar ddatblygu medrau ysgrifennu wedi arwain at welliant yn ansawdd ysgrifennu disgyblion at wahanol ddibenion yn y ddwy iaith.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol ystod o bartneriaethau gwerthfawr gyda rhieni, y gymuned leol a sefydliadau eraill sydd yn ymestyn profiadau dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus.

Mae partneriaeth werthfawr yn bodoli rhwng yr ysgol a’r rhieni. Mae’r rhieni yn gwerthfawrogi’r cyfathrebu cyson, sy’n fodd iddynt ddeall yn well sut i gefnogi eu plant. Mae’r rhieni yn cefnogi'r ysgol yn dda a thrwy eu gwaith fel gwirfoddolwyr darllen, sy’n cyfrannu’n arwyddocaol tuag at gynnydd disgyblion. Enghraifft dda o hyn yw ymroddiad y rhieni at sefydlu cae chwarae’r ysgol gan sicrhau adnodd sy'n cyfrannu'n dda at ffitrwydd a lles disgyblion.

Mae partneriaeth weithgar â’r gymuned leol. Mae’r cydweithio â’r eglwys gyfagos i greu llwybr natur o gwmpas tir yr eglwys yn hyrwyddo ymdeimlad disgyblion o aelodaeth o’r gymuned a’u balchder yn eu hardal leol. Mae effaith cyfraniadau gwirfoddolwyr, er enghraifft mewn gweithgareddau celf, wedi arwain at gydnabyddiaeth i waith y disgyblion mewn eisteddfodau’r Urdd. Mae’r ysgol yn cydweithio’n dda â nifer o fusnesau ac asiantaethau lleol, sy’n effeithio’n gadarnhaol ar waith y disgyblion. Enghraifft dda o hyn yw’r bartneriaeth gydag archfarchnad leol i hybu dealltwriaeth disgyblion am fwydydd iach a chymharu bwydydd lleol gyda diet gwledydd tramor.

Gweithia’r ysgol yn llwyddiannus gydag ystod o bartneriaethau strategol, gan gynnwys swyddogion yr awdurdod lleol ac ymgynghorwyr her. Mae’r partneriaethau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad lles a chyrhaeddiad disgyblion. Enghraifft dda o hyn yw’r gwelliannau ym medrau llythrennedd a rhifedd ar draws yr ysgol.

Mae cydweithio llwyddiannus gyda’r cylch meithrin yn sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu’n dda yn y dosbarth meithrin. Mae perthynas gadarnhaol gyda’r ysgol uwchradd leol yn sicrhau bod trefniadau pontio yn effeithiol i sicrhau bod y disgyblion yn trosglwyddo’n esmwyth. Mae athrawon yn cydweithio’n bwrpasol gydag ysgolion

y clwstwr a'r ysgol uwchradd i safoni a chymedroli gwaith disgyblion. Mae hyn yn sicrhau cysondeb a dilysrwydd yr asesiadau ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae digon o staff addysgu a staff cynorthwyol er mwyn ymdrin â phob agwedd o waith yr ysgol. Mae arweinwyr yn adnabod cryfderau ac arbenigeddau staff yn llwyddiannus ac yn dyrannu cyfrifoldebau yn dda. Mae'r cymorthyddion yn cefnogi'r staff a'r disgyblion yn dda ac yn cyfrannu'n effeithiol at wella safonau grwpiau penodol o ddisgyblion.

Mae'r staff yn defnyddio adnoddau'r ysgol yn dda gan sicrhau mynediad llawn i ddisgyblion at bob agwedd o'r cwricwlwm. Gwneir defnydd da o aelodau o'r gymuned i gyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion, er enghraifft drwy wrando ar ddarllen ac wrth gynnig gweithgareddau cerdd a chelf sydd wedi arwain llwyddiant yn eisteddfodau'r Urdd.

Mae'r trefniadau ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu'r athrawon wedi eu trefnu'n dda ac mae hyn wedi arwain at well cysondeb yn ansawdd yr addysgu. Mae prosesau rheoli perfformiad yr ysgol yn arwain yn effeithiol at ddatblygiad staff, er enghraifft wrth wella medrau ysgrifennu disgyblion.

Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu gefnogol ac mae'r athrawon yn cydweithio'n dda gyda'i gilydd i rannu arfer dda o fewn yr ysgol. Mae hyn wedi arwain at welliant yn y drefn o fesur cynnydd disgyblon. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i'r athrawon gyfnewid arfer dda tu hwnt i'r ysgol.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro a rheoli gwariant yn ofalus. Mae'r ysgol yn defnyddio grantiau penodol fel y Grant Amddifadedd Disgyblion yn effeithiol ar gyfer gwella medrau llythrennedd a rhifedd grwpiau penodol o ddisgyblion.

O ystyried safonau cyflawniadau'r disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6622104 - Ysgol Talhaiarn**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 54 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 18.8 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 8 | 11 | 9 | 4 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 87.5 | 81.8 | 44.4 | 75.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 4 | 4 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 5 | 3 | 7 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 80.0 | 100.0 | 57.1 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 0.0 | 0.0 | 28.6 | 33.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 | 3 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 3 | 8 | 2 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 75.0 | 0.0 | 0.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 33.3 | 12.5 | 0.0 | 0.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 4 | 4 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 8 | 11 | 9 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 87.5 | 100.0 | 66.7 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 37.5 | 18.2 | 55.6 | 25.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 1 | 4 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 8 | 11 | 9 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 87.5 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 37.5 | 72.7 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 1 | 1 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6622104 - Ysgol Talhaiarn**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 54 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 18.8 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 4 | 11 | 4 | 5 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 0.0 | 100.0 | 75.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 4 | 1 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 4 | 11 | 4 | 5 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 25.0 | 100.0 | 75.0 | 80.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 0.0 | 36.4 | 50.0 | 80.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 1 | 1 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | 2 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | * | * | 100.0 |
| Chwartel meincnod | * | * | * | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | 50.0 |
| Chwartel meincnod | * | * | * | 1 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 4 | 11 | 4 | 5 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 0.0 | 100.0 | 75.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 0.0 | 45.5 | 75.0 | 60.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 1 | 1 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 4 | 11 | 4 | 5 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 25.0 | 100.0 | 75.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 0.0 | 36.4 | 25.0 | 60.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 4 | 1 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 33 | 33<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 33 | 33<br>100%<br>92% | 0<br>0%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 33 | 33<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 33 | 33<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 33 | 33<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 33 | 33<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 33 | 33<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 33 | 33<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 33 | 33<br>100%<br>91% | 0<br>0%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 33 | 33<br>100%<br>95% | 0<br>0%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 33 | 31<br>94%<br>77% | 2<br>6%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 33 | 33<br>100%<br>84% | 0<br>0%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i’r holiadur i rieni

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 41 | 35 | 6 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 41 | 35 | 6 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 41 | 34 | 7 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 83% | 17% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 40 | 31 | 8 | 1 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 78% | 20% | 2% | 0% | | |
| | | 62% | 35% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 40 | 18 | 21 | 1 | 0 | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 45% | 52% | 2% | 0% | | |
| | | 47% | 48% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 41 | 34 | 7 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 83% | 17% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 41 | 32 | 9 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 78% | 22% | 0% | 0% | | |
| | | 64% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 37 | 21 | 15 | 1 | 0 | 3 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 57% | 41% | 3% | 0% | | |
| | | 49% | 43% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 41 | 31 | 10 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 76% | 24% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 41 | 27 | 14 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 66% | 34% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 41 | 31 | 10 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 76% | 24% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 32% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 38 | 25 | 13 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 66% | 34% | 0% | 0% | | |
| | | 55% | 39% | 4% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 41 | 24<br>59% | 14<br>34% | 3<br>7% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 49% | 41% | 9% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 41 | 33<br>80% | 8<br>20% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 39 | 27<br>69% | 11<br>28% | 1<br>3% | 0<br>0% | 2 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 48% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 40 | 26<br>65% | 14<br>35% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 57% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 36 | 24<br>67% | 11<br>31% | 0<br>0% | 1<br>3% | 5 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 40 | 25<br>62% | 14<br>35% | 1<br>2% | 0<br>0% | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 54% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 41 | 31<br>76% | 10<br>24% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 34% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Goronwy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| Glyn Griffiths | Arolygydd Tîm |
| Margaret Watkins | Arolygydd Lleyg |
| Manon Gwynedd | Arolygydd Cymheiriaid |
| Geraint Evans | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed.  Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn.  Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy’r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â’r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i’r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae’r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â’r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i’r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni’r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o’r 25% uchaf i’r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae’n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.